

cartref ym Môn tua'r adeg yma; yn y Brynddu y lletyai adeg cyfansoddi *Cywydd y falwen*.

Cyfeirir yn adolygiad y *Llenor* at y ffaith bod enw William Bukeley ar restr tansysgrifwyr amryw o lyfrau Cymraeg/Cymreig ei ddydd. Ceisiais olrhain y cyfrolau hyn gan ddefnyddio rhestr gynhwysfawr Eiluned Rees o lyfrau'r cyfnod cyn 1821, sydd yn cynnwys enwau tansysgrifwyr. Gellir gweld hon yng nghyfrol XI (1973-74) o *Gylchgrawn Cymdeithas Lyfryddol Cymru*. Tansysgrifiodd y dyddiadurwr i'r gweithiau canlynol:

(1) Morris, Lewis. *Plans of harbours*. ... [London], 1748. Talodd Bulkeley am '2B, and C.' Hefyd ar y rhestr mae enw ei fab, 'William Bulkeley jun. Esq.; Bar. at Law.' Achosodd y mab diffaith hwn lawer o bryder i'w dad; bu farw'n ddibriad yn Rhagfyr, 1751.

(2) Nourse, Peter. *Athrawiaeth yr Eglwys*; ... Caerlleon, 1731.

(3) Rowlands, Henry. *Mona antiqua restaurata* ... Dublin, 1723.

(4) Valentine, Henry. *Defosiwnau priod* ... Y Mwythig, [1722?].

Hefyd ar y rhestr mae tad-yng-nghyfaith y sgweiar sef Ambrose Lewis, rheithor Llanrhuddlad, a'i gefnder, Henry Morgan o'r Henblas yn Llangristiolus.

(5) Jones, Dafydd. *Blodeu-gerdd Cymry* ... Y Mwythig, 1759.

(6) Farrington, Richard. *Twenty sermons upon the following subjects* ... London, 1741. Yn ôl y *Bwygraffiadur*, mab i dad o Gaer a mam o blwyf Llechlched ym Môn oedd yr offeiriad a'r hynafiaethydd hwn. Cymry yw llawer iawn o danysgrifwyr *Twenty sermons*, y mwyaf ohonynt o'r Gogledd. Dywed Bulkeley yn ei ddyddiadur iddo danysgrifio i'r llyfr hwn ar y 3ydd o Awst 1739.

(7) Parry, John a Williams, Evans. *Antient British musci*; ... London, 1742.

(8) Ysgythriadau - 54 mewn nifer - ar gyfer y *Llyfr Gweddi*. Ceir tystiolaeth yn y llythyrau'r Morrisiaid i wr y Brynddu danysgrifio i ddwy set o'r ysgythriadau hyn. Fe'u bwriadwyd i'w rhwymo gydag argraffiad 1752 o'r *Llyfr Gweddi*. Ar yr un pryd darparwyd wyneb-ddalen ychwanegol i'r *Llyfr Gweddi*, un yn dwyn y dyddiad 1755.

Ar Fehefin 30ain, 1736 dywed Bulkeley iddo danysgrifio i gyfres o ddeuddeg print o olygfeydd yng Ngogledd Cymru gan un Mr. Lewis, arlunydd o'r Amwythig. Ymddengys nad ydynt bellach ym meddiant y teulu ond fe geir set yng nhasgliadau'r Llyfrgell Genedlaethol. Mae'r cyfeiriad yn y dyddiadur yn werthfawr gan fod gwybodaeth am y John Lewis hwn yn wirioneddol brin. Yn ei gofnod iddo yn *Artists in Wales c. 1740-c. 1751*, Aberystwyth, 1987, awgryma Paul Joyner fod gan John Lewis gysylltiad â Sir Ddinbych ond nid yw yn ei gysylltu â thre'r Amwythig.

Clywn yn y dyddiadur am William Bulkeley yn prynu llyfrau yn Nulyn, yn trefnu i gael rhai o Lundain, Caer a'r Amwythig ac hefyd yn derbyn

amrywiaeth o bapurau newydd. Ni wyddom nemor ddim am faint y casgliad o lyfrau a phrintiedig ond mae'n annhebygol iddo fod yn un sylweddol. Stad fechan oedd eiddo'r dyddiadurwr a phlasdy gweddol fychan oedd ei gartref. Nid yw'n syndod nad yw'n cyfeirio o gwbl at ystafell a elwid yn Llyfrgell. Y tebygrwydd yw y cadwai gyfran o leiaf o'i gasgliad yn y fyfyrgeill fechan, 'my closet', oedd yn un o'r ystafelloedd a ychwanegwyd ar y tŷ yn 1737. Yma, fe gredir, yr ysgrifennwyd y rhan fwyaf o'r dyddiadur. Nodir yn hwnnw i saer lleol lunio desg, bwrdd a silffoedd ar ei gyfer.


Nid oes lawer i'w ddweud, ysywaeth, am gasgliad y sgweiar o lyfrau printiedig. Erys rhai cyfrolau Saesneg gyda'i lofnod arnynt ym meddiant y teulu ond diau i eraill fynd ar chwâl. Hyd y gwn, nid oes lyfrau prin fu'n eiddo iddo yn y Llyfrgell Genedlaethol. Yma ac acw ceir mân gyfeiriadau at ei ymwneud â llawysgrifau, boed fel casglwr neu gopiyydd. Un llawysgrif a gysylltir â'i enw yw LLGC 832E, *Llyfr Gwyn Mechell* - gweler uchod. Daeth hon i'r Llyfrgell Genedlaethol fel rhan o gasgliad llawysgrifau Tŷ Coch, casgliad a fu'n eiddo i Edward Humphrey Owen, Tŷ Coch, Caernarfon. Rhywbryd tua 1745 darparodd Lewis Morris ei *Account of manuscripts in Wales*... sy'n enwi unigolion, Gogleddwyr yn bennaf, oedd â llawysgrifau yn eu meddiant. Yno ceir y canlynol, 'Mr. Bulkeley of Bryndu hath a few mss. & a new collection of his own.' Yn Llsg. Cwrtmawr 14C gwelir cyfeiriad at William Bulkeley yn y flwyddyn 1726 yn copio llawysgrif o gyfnod Harri'r VIII a fu ym meddiant William Jones, y Mathemategydd, 1675?-1749.

Benthyciasai honno gan William Hughes o'r Wylfa, hefyd ym mhlwyf Llanfechell. Mae'r Wylfa heddiw yn fwy adnabyddus fel safle Atomfa nag fel man lle cedwid llawysgrifau. Ar ddechrau'r 19 ganrif gwelwyd llawysgrifau yn y Brynddu gan Richard Llwyd, '*Bardd of Snowdon*', 1752-1835. Dyma sut yr ysgrifenna'r gŵr hwnnw at William Owen Pughe ar y 6ed o Hydref, 1802 (Llsg LLGC 13224B, t. 214), 'I passed a few days lately at Brynddu near Amlwch - where I found another batch of bardism in two old books which the rats have been reading for years - Mr. Bulkeley Hughes has promised to send them here that I may forward them to you - there was also fragmentd of a treatise on heraldry in Welsh - but merely scientifick and not relating to us in particular - the coulours [sic] and the charges were beautifully done and very fresh also the natural history of each object occurring as a charge ...' Mae i'r gair 'charge' ysytyr arbenigol yn y cyswllt hwn. Yn ôl y *New Oxford Dictionary of English* golyga, 'A device or bearing placed on a shelf or crest.' O gofio i Llwyd weld y llawysgrifau hyn rhyw ddeugain mlynedd yn unig ar ôl marw'r sgweiar, mae'n deg dyfalu iddynt fod yn rhan o'i gasgliad.

Er bod Llsg LLGC 832E yn llyfr o bwys, mae'n bosibl mai cyfrolau mwyaf gwerthfawr y sgweiar yw llawysgrifau

Henblas 18 a 19, eiddo Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor. Dyma, wrth gwrs, y dyddiadur ei hun. Mae mewn dwy gyfrol, y gyntaf yn ymestyn o'r 30ain o Fawrth, 1734 hyd yr 8fed o Fedi, 1760. Collwyd y gyfrol ganol - cyfnod cythryblus Gwrthryfel yr Ymhonnwr Ieuanc. Erbyn y 1920au, pan ddaethpwyd i sylweddoli ei werth, 'roedd y dyddiadur ym mhlasdy'r Henblas yn Llangristiolus ger Llangefni. Cysylltiad William Bulkeley â theulu Trefeilir a'r Henblas sy'n gyfrifol am y ffaith mai yn yr Henblas y diogelwyd y cyfrolau hyn.

Nid oes dystiolaeth bod William Bulkeley yn prydwyddu er iddo



Wyneb-ddalen argraffiad 1902 Isaac Foulkes, Lerpwl a'r argraffiad gwreiddiol o'r cylchgrawn Cymraeg cynta.

ymddiddori yn y grefft. Mentrodd Dafydd Wyn Wiliam awgrymu mai ef oedd yr 'W.B.' als Gwilym Wawdrydd' a gymerodd ran mewn ymryson englyna ym Môn yn 1734 ond mae'n amhosibl gwybod i sicrwydd. Ni ellir bod yn gwbl siwr, ychwaith, a fu i Bulkeley lunio o leiaf un gwaith rhyddiaith, sef traethawd yn amddiffyn y Methodistiaid. Yn ei gofnod i'r sgweiar yn y *Bywgraffiadur* mae Thomas Richards yn gwrthod y syniad ond nid felly Dafydd Wyn Wiliam mewn ysgrif yn y *Cofiadur* yn 1980. Os cafwyd traethawd ganddo, mae'n bosibl mai copïau llawysgrif yn unig a fu'n cylchredeg. Aelod eadarn o'r Eglwys Wladol oedd Bulkeley, ond awgrymwyd bod ganddo beth cydymdeimlad â'r Anghydfurfwyr.

Gwnaeth gŵr y Brynddu un cyfraniad bychan ond ymarferol at hanes argraffu a chyhoeddi yng Nghymru. Mewn cofnod yn ei ddyddiadur ar Ebrill y 10fed, 1735 dywed iddo brynu inc 'for printing' ar gyfer Lewis Morris. Dyma'n sicr yr inc a ddefnyddiwyd i argraffu *Tlysau yr hen oesoedd* yng Nghaer-gybi y flwyddyn honno. Fe gofir mai'r *Tlysau* byrhoedlog oedd y cylchgrawn Cymraeg cyntaf i'w gyhoeddi.

Charles Parry